# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Gorffennaf 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 10

## Project Siop a Swyddfa Bost gymunedol Llandyrnog

Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf o Brosiect Siop a Swyddfa Bost Gymunedol Llandyrnog nos Iau, 26 Mai i drafod cyfle i'r gymuned brynu'r Swyddfa Bost ac ailagor y siop.

Rhannwyd manylion am y gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael gan gyrff amrywiol, y strwythur cyfreithiol i sefydlu siop gymunedol, a ffyrdd o'i hariannu, e.e. gwerthu rhanddaliadau a chynnal digwyddiadau i godi arian.

Bwriedir trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ychwanegol a chyhoeddi cylchlythyr gwybodaeth. Os hoffech gael eich cynnwys anfonwch eich cyfeiriad e-bost at emyrmorris@btinternet.com.

Ar y dydd Llun canlynol roedd yn bleser cyfarfod Dr James Davies AS yn y siop ac yna i gael trafodaeth am y prosiect. Daeth â manylion cronfa grant newydd – Cronfa Perchnogaeth Cymunedol – a all fod o gymorth mawr i ariannu pryniant y siop.




*Emyr Morris*

Llandyrnog Shop
Village Shop & Post Office

Gwefan y siop: www.llandyrnogshop.com
Hefyd mae ganddi dudalen Facebook a chyfrif Twitter: @ShopLlandyrnog.

## Taith parch



*Ddiwedd mis Mehefin teithiodd 40 milwr a fu'n ymladd yn rhyfel Ynysoedd Falkland o gwmpas Cymru gan ymweld â phob cofeb i'r rhyfel. Daethon nhw i Ysgol Bryn Clwyd ar gyfer cofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards, a bu disgyblion yr ysgol yn eu diddanu (rhagor ar dudalen 12).*



**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth i chi nôl eich copi o swyddfa'r post. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Eric Forsyth, gynt o Min y Nant. Bu farw ym mis Mehefin yng nghartref nyrsio Plas Eleri, Dinbych.



Llongyfarchiadau i Jack a Fran, Helenfa, ar eu priodas yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Gordon a Brenda Williams, Nant Glyd, a fydd yn dathlu eu priodas ddiemwnt ar 7 Gorffennaf. Ychydig llai na 60 mlynedd i fynd, Jack a Fran!

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Gwasanaethau Gorffennaf

**Capel y Dyffryn**

| | | |
|---|---|---|
| 3 Gorffennaf | 10.00 | Sul Gŵyl yn Neuadd y Pentre |
| 10 Gorffennaf | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 24 Gorffennaf | 9.45 | Parch. Anna Jane Evans |
| 31 Gorffennaf | 11.00 | Parch. Andras Iago |

**St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 3 Gorffennaf | 11.15 | Boreol weddi |
| 10 Gorffennaf | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 17 Gorffennaf | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 24 Gorffennaf | 11.15 | Boreol weddi |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| 4 Gorffennaf | Trefoil Guild, 2pm |
| 19 Gorffennaf | Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| 20 Gorffennaf | Tuesday Club, 2pm |
| 26 Gorffennaf | Clwb Llyfrau 10am |
| 26 Gorffennaf | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |

***I logi'r Ystafelloedd Coco, cysylltwch ag Emily Williams, emilylloyd1@tiscali.co.uk.***

# Neuadd y Pentre

| | |
|---|---|
| 2 Gorffennaf | Grwp crefftau 9.30–3pm |
| 3 Gorffennaf | Sul Gŵyl Bro Dinbych, 9am–12 |
| 4 Gorffennaf | Brownies, 5.30–7pm |
| 5 Gorffennaf | Sefydliad y Merched 7–9pm |
| | Pwyllgor Cynghrair Pêl-droed yr Haf (yr oriel) 7pm |
| 10 Gorffennaf | Llan Llanast, 3.30–5pm |
| 11 Gorffennaf | Brownies, 5.30–7pm |
| 12 Gorffennaf | Cyfarfod pwyllgor y sioe, 7pm |
| 13 Gorffennaf | Undeb y Mamau 2–4pm |
| | Cyngerdd Ysgol Bryn Clwyd |
| 16 Gorffennaf | Bore coffi tuag at Prostate Cancer UK, 10am |
| 18 Gorffennaf | Brownies, 5.30–7pm |

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***

# Atgofion am Eisteddfod y Cant – URDD 2022

Beth sy'n aros yn y cof ar ôl i bob pafiliwn a phabell (a thoiled!) gael eu cario o'r maes prysur ar gaeau Kilford eleni? Wel!!... eisteddfod hwyliog oedd yn codi calon a'r sgwrsio cynnes, dal i fyny ers blynyddoedd – eisteddfod oedd yn aildanio bwrlwm diwylliannol a chymdeithasol Cymru gyfan.

Dyma'r digwyddiad diwylliannol, cenedlaethol cyntaf i'w gynnal ers 2019! Tyrrodd dros 118,000 o bobman yng Nghymru a thu hwnt, yn gystadleuwyr, perfformwyr, ymwelwyr a stiwardiaid i fwynhau'r wledd oedd ar ein cyfer. Cafwyd 185 awr o ddarllediad drwy'r wythnos ar S4C oedd yn arddangos cymaint o dalentau'r plant a phobl ifanc.

Roedd sawl 'tro 1af' y tro 'ma – doedd dim rhagbrofion a chafodd pob cystadleuydd berfformio mewn pafiliwn – Coch, Gwyn neu Wyrdd. Rhaid llongyfarch Mabon, Groes Efa a Mason, Tŷ Capel Isa ar gystadlu'n unigol ar y llwyfan mawr. Llongyfarchiadau i Gwenan Mars-Lloyd am ei llwyddiant yn y canlynol – 1af Unawd Cerdd Dant; 1af Triawd Cerdd Dant; 2il Alaw Werin; 2il Deuawd Cerdd Dant efo Ynyr; 3ydd Unawd Sioe Gerdd; 3ydd Deuawd Sioe Gerdd. Does dim rhyfedd ei bod yn un o ddwy a enillodd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod eleni, gwerth £2000, am fod yn gystadleuydd mwyaf addawol yr Eisteddfod Bl.10–19oed.

Llongyfarchiadau i bawb arall fu'n cymryd rhan yng gwasanaeth Capel Mawr, ac mewn partïon canu, grwpiau offerynnol a chyngherddau a sioeau o bob math – profiad bythgofiadwy i chi i gyd.

Bu ein Bryn Cogydd ni yn Llandyrnog yn un o'r stiwardiaid yn y Maes Parcio bob bore, ac wedyn yn beirniadu cystadlaethau CogUrdd drwy'r wythnos. Llongyfarchiadau i Bryn am ei araith fel llywydd y dydd, Dydd Iau.






*Chwith: Mabon ar ôl ei berfformiad Dydd Llun, efo Julia, noddwr y gystadleuaeth Cerdd Dant. Dde: Loti a Magi a'u cyfnither, Indie, wedi paratoi croeso mawr fel llawer man arall yn Llandyrnog i'r Eisteddfod lawr y ffordd. Diolch diffuant i bawb fu'n addurno eu cartrefi!*

**Bydd y tŷ coffi dros dro nesaf ym Mhafiliwn Cae Nant, 20 Gorffennaf o 3–5 y pnawn (yr amser wedi newid).**

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

***Bore Coffi***
Neuadd y Pentre

Dydd Sadwrn,
16 Gorffennaf,
10.00 – 11.30

PROSTATE CANCER UK

Derbynnir yn ddiolchgar gyfraniadau at y stondin cynnyrch cartref
*Croeso cynnes i bawb*

# Capel y Dyffryn

***Gwasanaeth awyr agored***

Cafwyd gwasanaeth teulu, awyr agored ar lan Afon Clwyd bnawn Sul 12 Mehefin gyda'r thema addas, '*Heddwch sydd fel afon*'. Yna, mwynhawyd sgwrs dros bicnic. Diolch i deulu Rhydonnen am ddefnyddio tir mor hyfryd yng nghalon Dyffryn Clwyd.



***Swydd Newydd*** Pob dymuniad da i Beth, Penybryn ar ei swydd newydd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth.

***Llongyfarchiadau*** i Non Davies, Hafod y Bryn oedd yn cyfarwyddo ffilm fer '*Hen Wragedd a Ffyn*' ddaeth ar restr fer gwobr yng Ngŵyl Cyfryngau Celtaidd *Quimper*.

***Pob dymuniad*** da i Elwyn Ger y Llan yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

***Bore Coffi*** – Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r bore coffi yn Neuadd y Pentre fore Sadwrn 18 Mehefin tuag at apêl Hadau Gobaith Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £461.58 (yn cynnwys Rhodd Cymorth).

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk
Neu gadewch neges ar Facebook

# Coed llarwydd Llangwyfan



Erbyn hyn, mae'r broses o ddymchwel y coed llarwydd oedd wedi eu heintio â *Phytophthora ramorum* neu glefyd y llarwydd wedi dechrau.

Dywedodd Aidan Cooke, Uwch Swyddog Gweithrediadau Coedwigaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, 'Yn anffodus, yr unig ddewis oedd gennym i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd oedd lladd a dymchwel y coed llarwydd. Rydyn ni'n llwyr sylweddoli y bydd hyn yn cael effaith weledol ar yr ardal. Mae'r coed wedi eu trin â'r chwistrelliad cemegol i'r bonion yn Awst 2021 i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol." *(Gweler* Llais Llandyrnog *Awst a Medi 2021.)*

**Oes gennych chi emwaith sydd wedi torri neu dydych chi ddim am eu cadw?**

Mae Brownies Llandyrnog yn codi arian at eu huned drwy ailgylchu, trwsio a gwerthu gemwaith mewn bore coffi a fydd yn yr hydref. Cyfrannwch unrhyw beth addas sydd gennych. Rydyn ni'n cyfarfod yn Neuadd y Pentre ar ddydd Llun, o 5.30 tan 7 o'r gloch, neu fe gewch fynd ag eitemau at ein harweinwyr. Diolch am eich cefnogaeth.
Karen Morris – Awel y Mynydd, Llangynhafal
Maria Tynan – 30 Maes Clwyd, Llandyrnog
Jackie Knight – Argoed, Llandyrnog

# Y Gymdeithas Hanes

Yn y Neuadd, Nos Fercher 18, roedd deugain o aelodau Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan ac ymwelwyr yn falch iawn bod Clwyd Wynne wedi sefyll yn y bwlch i roi sgwrs munud olaf yn lle'r siaradwr gwadd gwreiddiol a oedd yn sâl. Teitl ei sgwrs oedd '*Stryd Henllan – lle pobl dda neu ddrwg*?'

Mae Stryd Henllan yn un o'r ychydig strydoedd a enwir ar fap John Speed 1610, felly mae'n un o'r ffyrdd hynaf yn Ninbych. Dim ond traean o filltir ydi hyd y stryd i gyd, ac yn ystod y 19G a'r 20G, roedd tua 160 o dai yno – rhif ar bob eiddo, a phob eilrif ym mhlwyf Henllan, a phob odrif yn perthyn i Ddinbych.

Roedd bron pawb ar y stryd grefftwyr, e.e.cryddion (dros 80 ) neu'n labrwyr. Erbyn dechrau'r 20G, roedd llai o alw am y crydd a chaeodd llawer o'r busnesau bach yma.

Roedd llawer o bobl ar y stryd yn anfodlon eu byd a'u cyflog mor fach o'i gymharu â chyflog pobol gyfoethog y dre. Byddai llawer o'r cambyhafio gan ddynion a merched hefyd yn codi o achos alcohol. Yn y 19G, roedd tair tafarn yn y Stryd – yr Albion ar y pen ucha, a thafarn Mr. Story, Fferm Copi, sef y Black Lion, yn is i lawr. Mae'r *Hand* yn dal i fynd.

Doedd y ffaith bod pedwar lle o addoliad ar Stryd Henllan ddim i'w weld wedi effeithio rhyw lawer ar breswylwyr y stryd! Adeiladwyd Capel y Bedyddwyr yn 1812. Gyda chefnogaeth blaenoriaid y Capel Mawr, cafwyd ail Ysgol Sul i blant yn un o dai'r stryd yn 1827 ac adeiladwyd Capel Seion yn 1856. Yna daeth Eglwys y Plwyf, y Santes Fair yn 1874. Er mwyn cynnwys mwy o'r tlodion yn yr addoli, sefydlwyd Cenhadaeth Sant Andreas yn 1908 hanner ffordd i fyny'r stryd mewn adeilad parod, ac roedd llawer yn mynd i'r Ysgol Sul yno. Roedd Capel Seion a Chenhadaeth Sant Andreas yn wasanaeth hanfodol i lawer o deuluoedd – caent gyfle i fwynhau ychydig ar fywyd e.e. partïon, teithiau a chyngherddau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, daeth y gorau a'r gwaethaf allan o gymeriad preswylwyr Stryd Henllan – collodd fwy o ddynion nag unrhyw stryd arall yn Ninbych.

Dim ond ar ôl yr Ail Ryfel Byd y dechreuwyd clirio'r slymiau ar y stryd ac adeiladu cymysgedd o stadau o dai cyngor a thai preifat. Llwyddodd y gwelliannau hyn i setlo'r preswylwyr a thawelodd pethau. Ond yn fuan, dechreuodd problem arall godi ei phen – roedd pobl yn colli eu gwaith, ac un neu ddau'n dal i botsio!

Mae Clwyd wedi treulio ei fywyd yn Stryd Henllan, ac mae ganddo atgofion melys o fynd lawr at y siopau am fwyd a fferins. Theimlodd o 'rioed yn ofnus, er bod 'na ambell i gymeriad i'w wylio! Ei amcan, medde fo, wrth roi anerchiad ar Stryd Henllan oedd rhoi golwg mwy teg a chytbwys arni i wrandawyr.


Roedd o'n cyfadde' nad oedd pawb yno'n sant, ond roedd sawl rheswm am ymddygiad drwg – tlodi, alcohol, tai gwael, gorboblogi, addysg o safon isel. Ond, ar y cyfan, pobol weithgar yn byw bywyd normal, tawel a pharchus oedd preswylwyr Stryd Henllan.

Diolchwyd i Clwyd am sgwrs ddiddorol dros ben.




*Clwyd Wynne (chwith) gyda'r Hybarch Bernard Thomas, Cadeirydd y Gymdeithas. Llongyfarchiadau i Bernard a ddathlodd 50 mlynedd yn yr offeiriadaeth yn ddiweddar.*

# Blodau Parch: Grace Jones




Mae Llandyrnog wedi colli un o'i chymeriadau lliwgar fis diwethaf. Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Grace Jones, Nant Glyd gynt, oedd ar fin cael ei phen-blwydd yn 93 oed.

Cafodd ei geni yng Ngherrig Llwydion Bach. Arferai sôn am adeg yr Ail Ryfel Byd pan syrthiodd awyren ryfel i'r ddaear ger Rhydonnen, a hi a Gwenfyl ei chwaer yn mynd at falurion yr awyren honno i chwarae'n braf!

Bu'n forwyn ym Mhlas Cerrigllwydion am ddeng mlynedd, cyn mynd i weithio i Laethdy Fferm y Brwcws ac aros yno am 35 o flynyddoedd, heb golli'r un diwrnod o fynd ar ei beic i'r gwaith. Mae pawb yn cofio adeg trwsio Pont Glanywern, pan oedd y beic, a Grace ei hun ambell waith, yn cael eu cario'n ddiogel mewn bwced JCB dros y twll mawr i'r ochor arall yn ddiogel.

Roedd Grace yn perthyn i bob cymdeithas bron yn Llandyrnog. Bu'n aelod o'r *Girl Guides*, y *Girls Club*, a Sefydliad y Merched – lle bu'n llywydd am rai blynyddoedd.

Ymunodd â thîm bowls y Neuadd ac roedd wrth ei bodd ar gae pêl-droed Cae Nant yn cefnogi ei hoff dîm. Bu'n aelod oes o Eglwys Sant Tyrnog, ac yn aelod ffyddlon hefyd o bwyllgor Eisteddfod Llandyrnog.

Roedd hi'n barod bob amser i helpu gyda'r raffl mewn unrhyw fore coffi neu de prynhawn, a gallech glywed Grace yn rhoi rhyw bwff mawr o chwerthin harti dros y lle yn aml ar ôl clywed rhywbeth doniol. Roedd hi'n glamp o bersonoliaeth!

Rydym fel ardal yn cydymdeimlo'n fawr ag Alison a Nicola yn eu colled – buont yn ofalus iawn o'u Modryb Grace. Bydd angladd Grace yn eglwys St Tyrnog, ddydd Mawrth 12 Gorffennaf am 11.45.

# Rysáit

**Porc gydag oren (digon i 4)**

4 golwyth porc
2 lwy fwrdd wastad o flawd
½ llwy de wastad o halen
2 lwy fwrdd o olew
1 llwy fwrdd wastad o siwgr brown meddal golau
Pinsiad o sinsir mâl
Croen a sudd 2 oren
Cilddarnau (*segments*) oren o 2 oren, heb y pith gwyn a'r croen tenau

Torrwch y croen a'r braster mwyaf oddi ar y cig, yna sgeintiwch blawd a halen dros ddwy ochr y golwythion.
Cynheswch yr olew mewn padell ffrio sydd ddigon mawr i roi'r 4 golwyth ochr yn ochr, a ffrïwch y cig am 10 munud. Os oes blawd ar ôl, ychwanegwch o at y cig fel ei fod yn amsugno'r sudd.
Cymysgwch y siwgr, y sinsir, croen a sudd yr orennau gyda'i gilydd a thywalltwch hwn dros y cig.
Rhowch gaead ar y badell a mudferwch y cyfan am 50-60 munud.
Ychydig funudau cyn dod â'r bwyd at y bwrdd, ychwanegwch y cilddarnau oren.

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

CARPET SALES & INSTALL
Home Choose Carpets
Quality Sampling Service
FREE Estimates
CARPET & RUG CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com



# Hanesion Hazel

Mae mis Gorffennaf yn golygu dyddiau tesog sy'n para hyd yr hwyr. Mae'n adeg ddelfrydol i dreulio rhyw ddwy awr yn stwnsian o gwmpas yr ardd ar ôl diwrnod hir yn y gwaith. Mae angen dyfrhau pan mae sychder. Yr adeg gorau i ddyfrio ydi gyda'r nos gan fod llai o anweddu dŵr a pheryg ôl losgi dail y planhigion. Wrth gwrs, mae'r tŷ gwydr angen digon o ddŵr, yn enwedig y tomatos sychedig. Un o'r pethe mwya' defnyddiol i mi brynu erioed oedd y fentiau tŷ gwydr sy'n agor yn awtomatig. Fy nhad brynodd y rhain gyntaf oddi wrth Bayliss Auto Vents. Maen nhw'n defnyddio gwêr mynydd sy'n ehangu gyda gwres, ac o ganlyniad yn gwthio piston sy'n agor y ffenest. Mae agor ffenestri'n gwella cylchrediad aer, ac mae'r planhigion yn elwa.

Am flynyddoedd roedd gennym ni system ddyfrhau awtomatig gan ddefnyddio bagiau plastig oedd yn dal dŵr glaw o'r landeri. Roedd hwn yn llifo drwy'r peipiau at y planhigion a sicrhau bod y dŵr yn dripian yn barhaol. Beth bynnag, doedden nhw byth yn gweithio. Gwariwyd oriau'n ailosod a glanhau'r peipiau. Erbyn hyn, rydw i ond yn slochian caniad o ddŵr.

Y mis hwn ydi'r un gorau am weld pili-palod. Bydd Cyfrif Mawr y Pili-palod yn digwydd o Orffennaf 15 hyd Awst 7. Ewch i wefan www.bigbutterflycount.org i gofrestru, ac yna treulio chwarter awr yn nodi unrhyw bili-pala rydych yn ei weld (maen nhw'n rhoi siart ddefnyddiol i chi). Rydw i'n hoffi gweld cymaint o wahanol fathau, hyd yn oed iâr fach yr haf wen, sy'n hoffi dodwy o dan ddail y bresych, a deor i ffurfio lindys sy'n bwyta'r dail. Rydw i'n pigo'r rhain o'r planhigion, oherwydd yn anffodus, dydi'r ieir ddim yn eu bwyta!

Bob blwyddyn, mi fydd Mrs Siglen Fraith yn brysur yn gwneud ei nyth rhywle o gwmpas y stabal, a gori ar ei thylwyth newydd. Y sgip



sbwriel oedd ei dewis un flwyddyn, a ninne'n gorfod aros i bob wy ddeor cyn mentro gwagio'r sgip! Mae'r dewis eleni'n gallach – silff i fyny yn y daflod. Mae'r rhieni wrthi'n ddiwyd yn dod â phryfed drwy ffenest agored y stabal ac i fyny'r twll grisiau i'r daflod. Ffordd braidd yn gymhleth – gobeithio y bydd y cywion bach yn gallu dod allan. Mae'r gwenoliaid yn dod i mewn yr un ffordd i'r daflod hefyd, ac mi fydda i'n gorfod dal rhai o'r cywion sy'n sownd a dangos y ffordd allan iddyn nhw – a'u herian, '*Os na allwch chi ddod allan o fa'ma, sut aflwydd ydech chi'n mynd i ffeindio'ch ffordd i Dde Affrica.*'

Pethau i sylwi arnyn nhw fis Gorffennaf wrth i'r haul fachlud – 'stlumod yn perfformio'u campau acrobatig wrth chwilio am bryfed. Ar ffyrdd y wlad, wrth ffosydd a nentydd, gallwch glywed oglau marsipán – blodau'r mêl neu erwain (*meadowsweet*). Blodyn tal, gosgeiddig, lliw hufen fyddai'n cael ei ddefnyddio ers talwm i roi blas ar fedd neu i ddod dros ben mawr ar ôl yfed gormod o fedd!!

*Hazel*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Sian Gwyn Ifan.

# Gwinllan y Dyffryn

Mae wedi bod yn amser prysur yng Ngwinllan y Dyffryn. Mae'r gwinwydd ar fin blodeuo, felly rydym yn gobeithio am dywydd caredig, mwyn dros y bythefnos nesa. Os ydi'r blodeuo'n llwyddiannus, fe wnaiff y ffrwyth setio a datblygu i fod yn rawnwin. Mae Gwen wedi ymuno ag ambell ddiwrnod hyfforddiant gan Tyfu Cymru a'r Gymdeithas Gwinllannoedd Cymraeg yn ddiweddar. Mae hyn wedi'n helpu i greu ymwybyddiaeth o reoli iechyd a chnwd y gwinwydd, a dylai hyn ein helpu i sicrhau'r safon gorau i'r ffrwyth rydym ni'n cynaeafu.

Yn ogystal â'r gwaith yn y winllan, mae cnwd llynedd wedi bod yn eplesu (*fermenting*) ac rydyn ni'n hapus iawn efo safon y gwinoedd.

Mae'r gwin gwyn Solaris a'r rosé Rondo yn cael ei lansio yn fuan iawn. Daeth Dylan o siop Gwin Dylanwad Wine Dolgellau a chriw o'r rhaglen *Pnawn Da* yma ym mis Mai i ffilmio darn ar gyfer Wythnos Gwin Cymru sy'n parhau i fynd o nerth i nerth. Aeth Gwen i Ffair Winoedd Llundain fis Mehefin i arddangos samplau o'n gwinoedd a chawsom ni adborth gwych. Felly, rydym ni'n teimlo'n gyffrous iawn i lansio'r gwin ar y farchnad fis nesa. Gwyliwch allan am fwy o fanylion dros yr haf. Rydym yn rhannu ein stori ar dudalennau *Instagram* a *Facebook* a chewch hyd i hanes Gwinllan y Dyffryn wrth chwilio am 'Vale Vines and Wines'.




# Newyddion am y ffatri

Mae pethau'n digwydd dipyn yn arafach na'r disgwyl yn Llandyrnog, mae hynny'n amlwg. Mae'r amseroedd disgwyl am offer newydd wedi cynyddu yn aruthrol, felly dyma sy'n ein rheoli. Gobeithiwn y byddwn ar y safle rywbryd yn ystod tri mis cyntaf 2023.
Rydym wedi atgyweirio rhywfaint ar yr adeilad ar ochr chwith tu blaen y safle, gan fod y drysau wedi chwythu i ffwrdd yn y gwyntoedd cryfion. Felly rydyn ni wedi gosod caeadau rholio yn eu lle.

Mae gofalwyr y tir wedi bod yno'r wythnos hon ac wedi gwneud gwaith gwych ar y glaswellt. Roedden nhw'n mynd i weithio ar y llwybr troed hefyd, felly rwy'n cymryd bod hynny wedi'i wneud. Mae'n siŵr y byddan nhw yn eu holau yr wythnos nesaf i wneud rhagor o waith.

Yn ogystal, rydym yn mynd i ffensio tu blaen y safle ar yr ochr dde, fel y gallwn gael gwared ar y ffens Harris – rwy'n ymwybodol bod hon yn hagr.

*H. Jackson*
*Cyfarwyddwr Rheoli, Procter Johnson*

**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Taith Dractorau Dyffryn Clwyd

Eleni, er gwaetha'r tywydd echrydus, mi ddaru 'na tua 70 o dractors droi fyny yn y Glasdir Rhuthun i ymuno â ni ar ein taith flynyddol. Roedd y rhain yn amrywio o dractorau'r 50au, Landrovers, a be mae'r plant yn hoffi'u gweld wrth gwrs, sef y behemoth o beiriannau mawr 'ma efo'r golauadau mawr a chyrn gwynt swnllyd. Dwi am ddiolch yn arbennig i'r dreifars yma achos wnewch chi ddim credu faint o *fuel* mae'r rhain yn ei ddefnyddio mewn awr. Felly mae'n ddiwrnod drud a tasen nhw ddim allan efo ni, mi fuasen nhw'n gweithio ac yn ennill pres.

Er gwybodaeth – os dach chi am brynu tractor, peidiwch â gofyn i'r gwerthwr sawl milltir mae wedi'i wneud, ond sawl awr.

Maen nhw'n dweud bod fy nhractor bach coch i yn medru gwneud wyth awr ar danc llawn o danwydd – diwrnod o waith a does yna fawr wedi newid, a dweud y gwir.

Ein helusennau o ddewis eleni oedd The DPJ Foundation a Prostate Cymru – i drio codi ymwybyddiaeth bod yr aflwydd yma yn mynd i effeithio ar un dyn o bob pump yn ystod eu hoes. Yn anffodus mi roedden ni wedi colli i'r aflwydd noswyl 'Dolig gyfaill triw iawn i'n taith flynyddol. Gyda chefnogaeth lwyr ei deulu roedd y daith yma er coffa annwyl amdano. 'Mi fase wedi bod wrth ei fodd,' oedd geiriau ei wraig – doedd dim troi'n ôl, felly.

O Glasdir mi aethon ni drwy Bwllglas ac arafodd y 70 tractor y tu allan i gartref ein cyfaill fel arwydd o barch. Roedd ei wraig a'i theulu wedi hel ei chymdogion at ei gilydd yno. Heblaw am yr aflwydd yma, mi fase wedi bod efo ni yn codi llaw ac yn chwythu swsus at ei wraig – Duw sydd piau bywyd a'r edau sy'n mesur ei hyd.

Ymlaen wedyn at Nantclwyd a thrwy bentref hyfryd Llanelidan. Wedyn anelu at un o fy hoff lefydd, Mynydd Cricor, a'r hen gapel bach, sydd bellach bron yn adfail, yn ein hatgoffa ni o'r bwrlwm a fu ar un adeg, dwi'n siŵr. Os cewch chi gyfle rywbryd ar ddiwrnod braf mae'n nefoedd o le – ond cofiwch am fap neu dwm twm!

Erbyn hyn roedd y glaw wedi peidio a'r haul yn dechrau tywynnu. Yn anffodus roedd weiper-motor yr hen Landrover wedi gweithio'n rhy galed ac mi ddaru ddechrau mygu yn o arw. Gorfod i mi ddatgysylltu'r weiars efo un llaw a dal i yrru efo'r llall. Roeddwn ar fin stopio a rhoi diffoddwr tân arnodd ond mi bylodd y mwg reit sydyn. Roedd fy nghyd-deithiwr am y dydd wedi gafael yn dynn yn ei chi, ac un llaw ar handlen y drws yn barod i neidio allan! O chwi o 'chydig ffydd!

Ar ôl cael cinio yn yr enwog Ponderosa a dal fyny efo hwn ar llall, ei 'nelu hi wedyn drwy fferm Graig a Llandegla a lawr y silff drwy Bentre Coch. Penderfynu rhoi *treat* i Mam – 70 o dractors yn pasio ei chartref a phawb unai yn canu corn gwynt swnllyd neu'n codi llaw a Mam yn codi llaw yn ôl. Sori, bobl Erw Goch, am styrbio eich pnawn Sul – arna i roedd y bai. Ond roedd at achos da, cofiwch. A wna' i mo'i wneud eto. Weithiau mae'n haws gofyn am faddeuant na chaniatâd, yn tydi?



Mae'n diolch yn fawr i bob un ddaru fentro gan wybod bod storm ar y ffordd – rhai wedi dod o Ynys Mon, cofiwch! Rhaid diolch i'n holl noddwyr masnachol, sef Clwyd Caravan Storage, Wynnstay, Jones Bros, Townsend Supplies, Merfyn Parry, Meirion Davies, Mike Neumann Printers a PR Signs, ddaru sicrhau i ni godi oddeutu £1800.

*Bryn Davies*

# Tri lle



*Llun: Martin Fraser*

*Gan Richard (Dic) Morris, Caernarfon, cyn-blismon yn Llandyrnog, sy'n ddarllenwr brwd)*

***Llandyrnog – fy hoff le yn y byd***
Cefais fy magu yn Rhos a Ponciau, yn ymyl Wrecsam. Bu fy nheulu'n mynychu Capel y Bedyddwyr, Seion Ponciau am genedlaethau – yma daeth y Parch. T Jones-Evans, (tad Iestyn) yn weinidog atom ni o'r De, a fo fedyddiodd fi. Cefais fagwraeth hapus iawn – mynd i'r capel dair gwaith y Sul, Band of Hope ar nos Fawrth, a chyfarfod gweddi ar nos Iau.

Gadewais yr ysgol yn 15 oed a dod yn glerc y *Co-op* Cefn a'r Cylch, Rhosymedre. Yno, mi wnes i gyfarfod y plismon lleol, Bob Griffiths (*plismon lleol Llandyrnog yn ddiweddarach*), a diolch i'w ddylanwad o, gadewais y *Co-op* pan oeddwn yn 19 oed ac ymuno â heddlu Sir Ddinbych ym Mawrth 1962, yn Wrecsam. Ym mis Hydref y flwyddyn honno, symudes i Ddinbych, lle bues i'n ddigon lwcus i gyfarfod â Morfudd Rogers, Tŷ Capel Saron. Un diwrnod, penderfynodd cyd-weithiwr a minnau deithio i Landyrnog ar y bỳs am beint, a cherdded i mewn i'r *Golden Lion*. Yn syth bin, mi gawson ni groeso cynnes gan y landlord Ozzie Langford-Jones a'r preswylwyr, a daeth un ohonyn nhw, Peter Wilson, yn fêt gorau i mi. Wel dyna ffrind ardderchog! Dwi'n cofio fel roedd Peter yn gymwynaswr mawr ac yn gweithio mor galed yn Eglwys y Plwyf, Clybiau Pêl-droed Cynghrair yr Haf a'r gaeaf – y cymeriad mwya' diffuant i mi ddod ar ei draws erioed, a dwi'n dal i'w golli! Trwy Peter y deuthum i'n ffan mawr o dimau pêl-droed Llandyrnog United a thîm Chynghrair yr Haf.

Trosglwyddwyd fi gan Wasanaeth yr Heddlu o Ddinbych i Gerrigydrudion, Yr Wyddgrug, Cymau a Chaergwrle. Roeddwn i'n fwy hapus yn gweithio fel plismon pentre' na phlismon tref. Mae pentrefwyr yn llawer iawn mwy croesawgar ac agored. Mi wnes i fwynhau fy amser yng Ngherrigydrudion, ond gorfu i mi adael pan aeth y mab i Ysbyty Alder Hey, a'r orsaf heddlu'n cau yno. Roeddwn i'n hapus yn y Cymau hefyd, hyd nes i honno gau. Symud wedyn i Gaergwrle – dim ond rhyw filltir i fyny'r ffordd, ond pobl hollol wahanol. Mi wnes gais i brynu tŷ yn Nyffryn Clwyd, ond gwrthodwyd hyn gan y Pennaeth – yn hytrach gallwn brynu tŷ yng Nghaergwrle (*dim diolch*)! Yn ffodus, daeth swydd plismon ym mhentref Llandyrnog yn wag ac fe gefais y swydd. Roeddwn i'n ôl yn fy hoff ardal, bywyd pentre', Moel Famau a Chapel y Dyffryn. Roedd Morfudd a fi, Dylan a Susan yn fwy na hapus. Doeddwn i ddim yng Ngorsaf Heddlu Llandyrnog yn hir iawn – mi brynes dŷ yn Ninbych, gweithio yn Rhuthun ond cymdeithasu a mynychu Capel y Dyffryn yn Llandyrnog. Am flynyddoedd, mae Llandyrnog **wedi** bod ac yn **dal** i fod fy hoff le, RHIF UN!

**Bardolino**
Fy AIL hoff le ydy pentre' Bardolino, wrth Lyn Garda, yr Eidal. Bu Morfudd yno yn cystadlu fel aelod o gôr Caernarfon a meddyliodd y byddwn i'n hoffi'r lle. Mor wir oedd hynny, rydw i wrth fy modd gyda'r lle – y bobl, y bwyd, y gwin, y golygfeydd, y bywyd hamddenol, y llyn, popeth, i ddeud y gwir. Mae Bardolino'n debyg iawn i Landyrnog. Mae Moel Famau'n agos at Landyrnog, mae gan Bardolino Monte Baldo. Mae gan Landyrnog olygfeydd Dyffryn Clwyd, tra bod Y Dolomitiau gan Bardolino. Bob dydd Mercher, mae cyngerdd rhad ac am ddim yn



*Bardolino*. Mae corau cymysg yn sefyll ar stepiau'r eglwys, tra bod cerddorfa lawn yn chwarae yn y sgwâr islaw. Am ddwy awr, mi gewch chi ganeuon Verdi, caneuon allan o sioeau cerdd, ac mae'r 'gynulleidfa' yn eistedd tu allan yn bwyta eu pasta ac yn yfed gwin.

**Cerrigydrudion**

Fy hoff le RHIF TRI ydi Cerrigydrudion. Eto fel Llandyrnog, mae'n bentre' gyda golygfeydd godidog o Eryri, cymuned dda, tîm pêl-droed lleol a chapel da. Felly, gallwch weld mai'r cyswllt rhwng fy nhri hoff le ydi bywyd pentre', cymuned, lle addoliad, a chyfeillgarwch y bobl.

*Cyfarchion o Landyrnog Richard! Diolch am rannu dy brofiadau efo ni ac enwi dy dri hoff le yn y byd.*

# Ysgol Bryn Clwyd



Treuliodd Ed Holden (Mr Phormula) ddiwrnod yn yr ysgol yn dysgu'r plant sut i bîtbocsio a soniodd am ba mor ddefnyddiol oedd y Gymraeg a'r Saesneg wrth ysgrifennu cerddoriaeth rap. Roedd y plant yn methu credu'r synau roedd Ed yn gallu'u gwneud gyda dim byd ond ei geg!





Mwynhaodd y disgyblion ginio efo'r Frenhines i nodi'r jiwbilî.

Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi dechrau ar eu gweithgareddau pontio sy'n helpu i'w cyflwyno i fywyd yn yr ysgol uwchradd. Teithion nhw i Ysgol Bryn Hyfryd ar fws mini gyda disgyblion o Ysgol Gellifor, y gwnaethon nhw gyd-dynnu mor dda â nhw yn Nant BH.

Mae'r babanod wedi bod yn dysgu am Gemau'r Gymanwlad a mwynhaodd yr ysgol eu mabolgampau er gwaethaf y tywydd.



# Gair gan yr offeiriad

Am 5 wythnos gan ddechrau'r Sul olaf ym mis Gorffennaf, bydd y gwasanaethau wythnosol ym mhob eglwys ar draws Ardal Genhadaeth Dinbych yn dod ynghyd mewn lleoliadau gwahanol ar gyfer un oedfa i ni i gyd bob wythnos. Rydyn ni'n teimlo mai dyma'r amser gorau i wneud rhywbeth ar y cyd oherwydd bod y rhan fwyaf o bobl yn cymryd gwyliau drwy gydol mis Awst. Rydyn ni'n rhoi digon o rybudd yn y gobaith y bydd cymaint o bobl â phosib yn croesawu'r cyfle i ddod at ei gilydd i addoli ac i ddysgu gyda'n gilydd. Bydd hyn yn cymryd tua awr a hanner ac wedyn mae opsiwn i ddod â bwyd gyda chi er mwyn i ni fwyta gyda'n gilydd hefyd. Ni fydd pawb yn gallu aros am fwyd bob tro, wrth reswm.

Byddwn yn addoli ac yn astudio'r deunydd y bydd yr esgobaeth yn ei baratoi ar ein cyfer. Mae hwn wedi'i wreiddio yng nghanolbwynt newydd yr esgobaeth: credwn fod yr eglwys yn bodoli er mwyn tri pheth:

- Tyfu FFYDD
- Dod â GOBAITH
- Dangos CARIAD.

Mae'r themâu hyn yn y Testament Newydd, yn nysgeidiaeth Iesu ac ym mywyd yr eglwys fore. Maen nhw hefyd yn llythyrau Paul ac yn Actau'r Apostolion. Os gwelwch yn dda, dewch i ni gefnogi ein gilydd ar draws yr ardal genhadu a mynychu cynifer o'r pum sesiwn hyn ag sy'n bosibl. Peidiwch â gadael i ddiffyg cludiant fod yn rhwystr – os ydych chi'n methu cyrraedd un, peidiwch â cholli'r gwasanaeth am yr wythnos honno, gallwn drefnu i gludo pobl. Rhowch wybod i'ch warden os ydych yn gyrru a rhannwch gyda nhw hefyd os hoffech chi gael lifft.

Dyma'r amseroedd a'r lleoliadau eraill, bydd ein holl eglwysi eraill ar gau ar y dyddiau hyn. Edrychwn ymlaen at weld cymaint o bobl â phosibl.

**31 Gorffennaf 10.30** Gwasanaeth cyntaf yr Ardal Genhadu ar gyfer Ffydd/Gobaith/Cariad yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Trefnant
**7 Awst 10.30** 2il wasanaeth yr Ardal Genhadu yn Eglwys St Mihangel, Caerwys
**14 Awst 10.30** 3ydd gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Eglwys St Tyrnog, Llandyrnog
**21 Awst 10.30** 4ydd gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Eglwys St Steffan, Bodfari
**28 Awst 10.30** 5ed gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Eglwys St Dyfnog, Llanrhaeadr

# Taith parch

Roedd y Gwarchodlu Cymreig yn coffáu 40 mlynedd ers Rhyfel Ynys Falkland â Thaith Parch gan 40 o gyn-filwyr yr ymgyrch ar eu beiciau modur.

Cynhaliwyd y digwyddiad dros bedwar diwrnod, 21–24 Mehefin, ac amcanion y daith oedd cofio'r rhai a fu farw, parchu teuluoedd mewn profedigaeth, codi ymwybyddiaeth o leoliad pob cofeb a chefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Dechreuodd y daith yn Windsor, cyn galw yn Ross on Wye, Henffordd, ar y ffordd i sawl tref yn ne a gorllewin Cymru. Yng Ngogledd Cymru, ymwelwyd â'r holl gofebion, gan gynnwys Pwllheli, Caergybi, Llanfairfechan, Y Rhyl, Rhuthun a Wrecsam.

Ymwelodd y beicwyr ag Ysgol Bryn Clwyd ar eu diwrnod olaf, i osod torch ar gofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards yn Ysgol Bryn Clwyd.



# Taith gerdded Cymorth Cristnogol

Roedd y syniad o godi arian wrth gerdded o Gastell y Waun i Gastell Caernarfon ac ymweld â'r 22 castell ar hyd yn ffordd wedi ennyn ein chwilfrydedd! Y Parch. Andrew Sully, Llandudno, gafodd y syniad gwreiddiol a gwahoddodd bobl i ymuno ag o ar rannau o'r daith. Roedd Andrew yn codi arian tuag at Apêl Cymorth Cristnogol sydd yn canolbwyntio eleni ar y sychder mae newid hinsawdd yn ei achosi.

Gofynnodd ffrindiau i ni ymuno â nhw ddydd Gwener, 6 Mai ar y daith o Benarlâg i'r Fflint, heibio i Gastell Ewlo, pellter o tua 8½ milltir – fel mae'r frân yn hedfan! Roedd y tywydd yn braf wrth i ni gychwyn ar ôl gweddi fer, a phawb mewn hwyliau da. Roedd cyflwynydd teledu a chriw yn ein dilyn, ac roedden ni'n cael ein ffilmio ar wahanol adegau ar y daith ar gyfer rhaglen *Prynhawn Da* S4C.

Roedd ein taith yn dilyn un o'r teithiau allan o lyfr Mike Stephens, *The North Wales Castle Trail*. Er bod nifer o'n grŵp yn gyfarwydd â Phenarlâg a'r ardal, roedden ni'n cerdded yn aml ar hyd llwybrau oedd yn newydd i ni.

Roedd ein arhosiad cynta' ym Mharc Gwledig Gwepra, lle cawson ni'n cinio wrth ymyl Castell Ewlo. Dyma gyfle i'r criw ein ffilmio ac i'r cyflwynydd, Gerallt Pennant, ein holi.

Wrth agosáu at y Fflint, cawson ni wledd o olygfa odidog aber afon Dyfrdwy a Chilgwri yn gefndir. Yn ystod awr ola'n taith, newidiodd y tywydd ac roedd rhaid arafu fymryn oherwydd y glaw trwm. Roedden ni'n falch o gyrraedd Eglwys Dewi Sant, y Fflint, lle cawson ni groeso cynnes â the a chacennau cartref.

Rhan ola'r daith oedd taith ar fŷs o'r Fflint yn ôl i Benarlâg – roedden ni wedi cerdded hen ddigon y diwrnod hwnnw!

Hyd yn hyn, mae ymdrech glodwiw Andrew wedi codi dros £8000 tuag at Gymorth Cristnogol.

*Elaine ac Earle Wright*



*Ym mharc Castell Penarlâg ar ddechrau'r daith. Y Parch Andrew Sully (yn y cefn, ar y dde), Llinos Roberts, Swyddog Maes Cymorth Cristnogol Gogledd Cymru (ar y pen ar y dde), Gerallt Pennant trydydd o'r chwith.*

---

# Ail-frandio Cymru




"Rhaid i Ddelwedd Cymru newid o 'ddefaid, glaw a rygbi' i antur, iaith a bwyd." Dyna ddywedodd Sean Taylor, Cyfarwyddwr Zip World Cymru wrth roi tystiolaeth ger bron Pwyllgor Materion Cymreig yn ddiweddar, ynghyd ag Ian Roberts Portmeirion Cymru (ein Ian Sgubor Wen ni, Llandyrnog), Stephen Davies, prif weithredwr Penderyn Distyllfa a Paul Lewin, Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru.

Cytunai'r pedwar bod gan Gymru frand gwan, a bod Yr Alban (Loch Ness), Iwerddon (Guiness), a Lloegr (Llundain/y Teulu Brenhinol) yn rhoi Cymru yn y cysgod.

Ymhlith llu o awgrymiadau eraill i'r Pwyllgor, pwysleisiodd y pedwar bod angen defnyddio mwy o'r gair 'Cymru', yn hytrach na '*Wales*', a rhoi llawer mwy o bwyslais ar yr Iaith Gymraeg. Bod angen defnyddio'r iaith fel arf fanteisiol, ac nid fel bygythiad - roedd ymwelwyr rhyngwladol a Seisnig wrth eu bodd yn clywed iaith y nefoedd.

# Y Sioe Flodau a Chynnyrch

**Apêl:** Mae angen stiwardiaid ar gyfer y beirniadu, o hanner dydd tan 1.30 fan hwyraf. Os ydych yn gallu helpu ac yn barod i wneud, cysylltwch ag ysgrifennydd y sioe, Roger Warner, ar 07879 771461. Mae angen cymorth hefyd i osod byrddau a chadeiriau ddydd Sul, 28 Awst.

**Cystadleuaeth yr ardd orau:** Bydd yr enillydd yn cael tocyn rhodd gwerth £30 i'w wario mewn canolfan arddio.

Gellir cystadlu gyda gardd gyfan neu ran o ardd, e.e. gardd lysiau, gwelyau blodau, gardd batio, arddangosfa basgedi crog a.a.

Anfonwch eich ceisiadau i gystadlu drwy e-bost at llandyrnogshow@gmail.com neu eu rhoi yn y bocs yn Swyddfa Bost y Pentref gan ddefnyddio'r ffurflen sydd yn y rhaglen. Rhaid cyflwyno cais erbyn dydd Iau 14eg Gorffennaf. Bydd y beirniadu yn ystod y saith diwrnod sy'n dechrau 25 Gorffennaf, ar ddiwrnod ac amser i'w benderfynu gan y Beirniad.

**Rhaglenni:** Mae'r gwaith o ddosbarthu'r rhaglenni eisoes wedi dechrau. Maen nhw hefyd ar gael yn swyddfa bost y pentref.

# Tuesday Club

Mynd allan am ginio i'r Cherry Pie, Melin y Wern oedd cyfarfod mis Mehefin y Tuesday Club. Mae'r clwb yn ymwelwyr cyson â'r bwyty ac fe gafodd pawb amser wrth eu boddau, fel arfer. Roedd y bwyd yn dda, a gwasanaeth Simon ac Eleri, y perchnogion, yn ardderchog – doedd dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw. Fe ddaeth David ac Audrey Jones, cyn-berchnogion y Kinmel Arms yn Llandyrnog ddod i ddweud helô hefyd a braf oedd eu gweld yn edrych cystal.

Diolchwyd yn ddiffuant i Simon ac Eleri a'r staff, ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 20 Gorffennaf, yn yr Ystafelloedd Coco fel arfer.



hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

Prompt Travel
Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat

# Arsyllfa werdd symudol

Mae fan werdd ar fin rhoi cyfle i seryddwyr lleol gael cip o awyr y nos.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi croesawu elfen newydd i'r tîm i gynorthwyo i hyrwyddo'r fenter Awyr Dywyll.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd y llynedd, mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gwneud cais am statws Cymuned Awyr Dywyll gyda Chymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll.

Mae statws Awyr Dywyll yn darparu cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr ac eraill ar ddyluniad golau da mewn AHNE gyda'r nod o sicrhau y gall seryddwyr, rhai sy'n hoff o'r sêr ac arsyllwyr achlysurol weld awyr y nos yn ei holl ogoniant.

Mae fan drydanol Awyr Dywyll wedi cyrraedd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sydd wedi'i dylunio i ddarparu golygfan berffaith o awyr y nos.

Bydd y fan drydanol Renault Kangoo Z.E sydd ag ystod o 170 milltir, yn cynnwys offer seryddol, gan gynnwys telesgopau.




Bydd staff AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn defnyddio'r fan i gynnal digwyddiadau cyhoeddus Awyr Dywyll ar draws yr ardal leol i roi cyfle i bobl fwynhau awyr naturiol y nos. Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi cynhyrchu nifer o ganllawiau seryddol i gynorthwyo pobl i ganfod y prif gytser yn yr awyr – maen nhw hefyd yn adrodd hanes rhai o chwedlau Cymru sy'n gysylltiedig â'r cytserau a'u henwau Cymraeg.

LLAN Llanast

Yng nghyfarfod mis Mehefin, mi wnaethom ni lawer o weithgareddau oedd yn ymwneud â dathlu'r Jiwbilî Platinwm. Buom yn gwneud coronau, potiau dal blodau, llyfrnodau yn dangos tirnodau Llundain a lluniau o stampiau, ac yn addurno bisgedi siâp coron. Chwaraeon ni hefyd gêm '*Piniwch y diemwnt ar y goron*!' Gwnaethom ni orsedd oedd wedi ei haddurno'n addas i Frenhines!



Edrychon ni ar y Frenhines ar ei gorsedd, Iesu ar asyn a chofio, er bod y Frenhines yn ymddangos ei bod yn bwysicach, mae hi bob amser wedi gwrando ar eiriau'r Iesu a cheisio dilyn ei esiampl. Cafodd pob plentyn gopi coffaol o Efengyl Sant Ioan i gofio'r achlysur arbennig hwn.

Bydd ein cyfarfod nesaf 10 Gorffennaf ac mae croeso cynnes i bawb.

*Mary Steel*



*Dyma rai o'r gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith gwych yn Llan Llanast. Diolch o galon gan yr holl blant a'r rhieni sy'n mwynhau'r gweithgareddau.*

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mehefin Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Roedd hi'n siomedig bod Cyngor Sir Ddinbych heb osod band llydan yn yr Ystafelloedd Coco fel yr addawyd fis Awst diwethaf. Penderfynwyd cysylltu â'r cyngor gan fod y fenter yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd dau gais cynllunio i'w hystyried – to dros le bwydo Nant Lewis Alyn a datblygiad 40 annedd yng nghefn Maes Llan – cais diwygiedig.
- Ni chafwyd ymateb gan Phil Hill, cyd-gysylltydd hyfforddiant defnyddio diffibrilwyr y GIG – penderfynwyd ymchwilio i ffyrdd eraill.
- Cafwyd trosolwg ar y datblygiad o ran siop gymunedol, ac mae'n ymddangos bod popeth yn symud ymlaen yn hwylus yn sgil cyfarfod agored 22 Mehefin – pum cyfarwyddwr wedi eu penodi, a 46 o bobol yn dangos diddordeb mewn dod yn wirfoddolwyr neu'n rhan o'r grŵp llywio.
- Roedd hi'n braf cyhoeddi bod dau gynghorydd wedi bod ar hyfforddiant yn ystod y mis, ac eraill wedi cofrestru yn y dyfodol agos yn ymwneud â sgiliau cynllunio, cyllid a chadeirio.
- Roedd hi'n siomedig nad oedd CSDd wedi gosod lamp stryd ym maes parcio Maes Llan er gwaethaf y gohebu ers Gorffennaf 2021, ac mae'n ymddangos nad yw'r fynedfa'n cael ei chynnal a chadw chwaith.
- Diogelwch ar Bont Glan y Wern – mae'r bont yn ffin rhwng wardiau Dinbych Isaf a Llandyrnog, a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng y cynghorwyr a'r swyddogion diogelwch priodol i weld a oes yna ddull cost-effeithiol o'i gwneud hi'n fwy diogel i feicwyr a cherddwyr.
- Trist oedd clywed am dri digwyddiad o arllwys sbwriel yn y pentre'. Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i ddau o'r taflwyr sbwriel, a thystiolaeth bendant am y soffa gafodd ei thaflu rhwng Llandyrnog a Llanynys. Os ydych chi'n talu am gael gwared ar sbwriel, cofiwch fynnu gweld y drwydded cludo, ac os yw'n berthnasol, y nodyn trosglwyddo sbwriel.
- Fe'n hatgoffwyd y bydd pob cyflymder 30mya yn newid i 20mya ym mis Medi.
- Gan ddilyn y gweithdrefnau cywir, gwelwyd fod tri wedi datgan diddordeb mewn cael eu cyfethol ar y Cyngor Cymuned, ond tynnodd un ei enw'n ôl.

---

# Sesiynau pêl-droed y plant

Ar ôl cyfnod mor hir oherwydd Cofid, roedd Ethan a minnau wedi'n syfrdanu gan nifer y plant ddaeth i Gae Nant bob wythnos. Mewn 18 mlynedd o'r sesiynau pêl-droed iau yma, gwelson ni'r nifer fwyaf erioed eleni, yn enwedig gyda'r plant cynradd. Yn bendant, niferoedd anhygoel bob wythnos, fydd yn sicr o gadw Ethan a mi'n brysur am flynyddoedd eto! Diolch o galon i'r holl rieni a'r plant eu hunain am eu hymdrechion a'u brwdfrydedd, ac fe welwn chi i gyd eto ar ôl gwyliau'r haf!

Mae'r cystadlaethau 7 bob ochr yn ôl. Os ydych chi'n byw yn Llandyrnog neu Langwyfan, ac os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan yn y gystadleuaeth, cysylltwch â fi drwy *Messenger* os gwelwch yn dda. Bydd angen enw, oed a chyfeiriad y plentyn arnon ni.

2 Gorffennaf: Ysgolion cynradd (6–11oed) – Llanrhaeadr am 10 o'r gloch.

19 Gorffennaf: Ysgolion Uwchradd (Bl 7–11) – Llanfair DC am 10.30

Croeso i bawb o bob gallu. Dewch draw i gynrychioli eich pentre'.

Bydd sesiynau ymarfer ar gyfer pob oedran Nos Fawrth, 21 Mehefin a Nos Fawrth, 28 Mehefin 6–7pm i weld sawl tîm gallwn eu cofrestru ar gyfer y cystadlaethau.

*Jimmy McNally*

*Rhaid diolch yn ddiffuant i Jimmy ac Ethan am eu gwaith caled gyda'r ieuenctid drwy'r tymor.*